

**2017 Rhif (Cy. )**

**2017 No. (W. )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (y  
Bontnewydd, Gwynedd) (Terfyn  
Cyflymder Rhan-amser o 20 mya)  
2017

The A487 Trunk Road  
(Bontnewydd, Gwynedd) (Part-  
time 20 mph Speed Limit) Order  
2017

*Gwnaed* 12 Ionawr 2017

*Made* 12 January 2017

*Yn dod i rym* 18 Ionawr 2017

*Coming into force* 18 January 2017

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (“y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the Fishguard to Bangor Trunk Road (A487) (“the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of the North Wales Police, make this Order.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**Title, Interpretation and Commencement**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Ionawr 2017. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (y Bontnewydd, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder Rhan-amser o 20 mya) 2017.

1. This Order comes into force on 18 January 2017 and its title is The A487 Trunk Road (Bontnewydd, Gwynedd) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at ydibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd cartref y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd yn y Bontnewydd, yn Sir Gwynedd sy'n ymestyn o bwynt 71 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan y Bontnewydd hyd at bwynt 471 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan y Bontnewydd.

### Cymhwys

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny fel y'i dangosir gan arwyddion traffig.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

12 Ionawr 2017

*Nina Ley*

Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the home forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director.

### Restriction

3. No person shall drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road at Bontnewydd, in the County of Gwynedd that extends from a point 71 metres south of the centre-point of Bontnewydd Roundabout to a point 471 metres south of the centre-point of Bontnewydd Roundabout.

### Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers

Dated

12 January 2017

*Nina Ley*

Head of Business Unit, Network Management  
Welsh Government

- (1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487 (Y  
BONTNEWYDD, GWYNEDD) (TERFYN  
CYFLYMDER RHAN-AMSER O 20 MYA) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 18 January 2017.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder rhan-amser o 20 mya ar ddarn o gefnffordd yr A487 yn y Bontnewydd, Gwynedd er mwyn gostwng cyflymder y traffig sy'n gyfagos i Ysgol Gynradd Bontnewydd. Y darn o gefnffordd yr A487 sy'n ymestyn o bwynt 71 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan y Bontnewydd hyd at bwynt 471 o fetrau i'r de o ganolbwynt y gylchfan honno fydd yn ddarostyngedig i'r terfyn cyflymder rhan-amser. Dim ond yn ystod cyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn ystod y tymor ysgol mae'n debygol y bydd y terfyn cyflymder is hwn yn gymwys ac ni ddisgwylir iddo fod yn weithredol ar benwythnosau: bydd terfyn cyflymder o 30 mya mewn grym ar yr holl adegau eraill.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 18 Ionawr 2017 gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yng Nghyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1263293/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2017).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**THE A487 TRUNK ROAD (BONTNEWYDD,  
GWYNEDD) (PART-TIME 20 MPH SPEED  
LIMIT) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order under sections 84(1) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 18 January 2017.

The effect of the Order is to introduce a part-time 20 mph speed limit on a length of the A487 trunk road at Bontnewydd, Gwynedd in order to reduce the speed of traffic adjacent to Ysgol Gynradd Bontnewydd. The length of the A487 trunk road that extends from a point 71 metres south of the centre-point of Bontnewydd Roundabout to a point 471 metres south of the centre-point of the said roundabout will be subject to the part-time speed limit. This reduced speed limit is only likely to apply for limited periods of the day during school term time and is not expected to operate at weekends: at all other times a 30 mph speed limit will be in force.

During a period of 6 weeks from 18 January 2017 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon LL5 1SH or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1263293/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**